Proffil Swydd/Job Profile

Teitl y Swydd – Llwythwr Sbwriel/ Ailgylchu Achlysurol

Post Title – Casual Refuse/Recycling Loader

Adran	Yr Amgylchedd
Department	Environment

Is-adran/Adain	Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
Division/Section	Waste and Environmental Services

Gradd/Grade	D

Rhif y Swydd/Post Number	034635

Paratowyd gan/Prepared By	D John

Dyddiad/Date	Ebrill / April 2024

Prif Ddiben y Swydd

Gweithio fel rhan o dîm gweithredol yn y gwasanaeth casglu sbwriel/deunydd ailgylchu, sy'n gyfrifol am gasglu sbwriel a deunydd ailgylchu o eiddo ar rowndiau casglu neu mewn ardaloedd dynodedig, i ddiwallu anghenion preswylwyr a busnesau Sir Gaerfyrddin.

Y Prif Ddyletswyddau

Y PRIF GYFRIFOLDEBAU:
Dyletswyddau Gweithredol:

1.Casglu deunydd ailgylchu neu sbwriel o dŷ i dŷ neu o fan casglu arall y cytunwyd arno a'i lwytho i'r cerbyd yn unol â chynlluniau, gweithdrefnau a chodau ymarfer gweithredol, gan gynnwys codi / symud/ didoli a dychwelyd yr holl gynwysyddion sbwriel ac ailgylchu, a sicrhau bod sbwriel ac eitemau i'w hailgylchu yn cael eu casglu bob amser a bod unrhyw gasgliadau na chasglwyd yn cael eu casglu erbyn diwedd y dydd.

2.Gweithredu unrhyw fecanweithiau pŵer a osodwyd, gan gynnwys cyfarpar llwytho/cywasgu awtomataidd, yn unol â gweithdrefnau'r gwasanaeth a gofynion y cerbyd, a helpu'r gyrrwr yng ngweithgareddau gweithredol y rownd ac mewn mannau tipio i leihau a rheoli'r risgiau posibl i lechyd a Diogelwch.

3. Bod yn gyfrifol am gynorthwyo'r gyrrwr i symud y cerbyd yn ddiogel o amgylch y strydoedd a chyflawni dyletswyddau cynorthwyydd rifyrsio, rheoli traffig a rhoi signalau (bancsmon) yn unol â gweithdrefnau gweithio diogel a defnyddio cymhorthion rifyrsio i leihau'r risg o anaf personol i aelodau eraill y criw ac i aelodau'r cyhoedd.

4.Gwneud archwiliad gweledol o'r sachau a'r cynwysyddion i sicrhau nad oes gwastraff gwaharddedig/halogedig yn cael ei gasglu a bod gwastraff ailgylchadwy yn cael ei roi yn y rhan briodol o'r cerbyd i osgoi croeshalogi. Nodi unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio a rhoi gwybod i Yrrwr y Cerbyd Sbwriel/Ailgylchu amdanynt a, lle bo angen, rhoi hysbysiadau cymeradwy ar y bagiau neu'r cynhwysydd.

5.Sicrhau bod unrhyw falurion neu sbwriel a gollwyd o sachau wedi'u difrodi yn cael eu clirio ar unwaith, a lle mae llawer o sbwriel wedi cael ei ollwng, rhoi gwybod am hyn i yrrwr y Cerbyd Sbwriel/Ailgylchu.

6.Cysylltu'n barhaus â Gyrrwr y Cerbyd Sbwriel/Ailgylchu mewn perthynas â gweithgareddau gweithredol y rownd ddyddiol er mwyn rhoi gwybod am unrhyw broblemau (cerbydau wedi'u parcio/mynediad i fannau cymunedol/galwadau yn ôl/casgliadau sydd heb eu casglu/arllwysiadau/ardaloedd lle ceir problemau sbwriel/tirlenwi ac ati) a mynd ati ohonoch chi eich hun i ymdrin â materion gweithredol wrth iddynt godi fel bod modd eu datrys yn gyflym.

7.Helpu'r gyrrwr i gydymffurfio â rheolau'r safle gwaredu ar gyfer dadlwytho a phwyso'r cynnwys pan gaiff ei dipio mewn lleoliadau penodol (gorsafoedd trosglwyddo, safleoedd tirlenwi neu gyfleusterau ailgylchu).

8. Bwrw ati eich hun i ddatrys unrhyw broblemau gweithredol, gan gynnwys gofynion casglu unigryw, halogiad neu faterion sy'n berthnasol i berfformiad a diogelwch y rownd i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r safon uchaf a nodi, cofnodi a rhoi gwybod am

benderfyniadau a gweithgarwch i'r goruchwylydd amgylcheddol gan ddefnyddio'r weithdrefn benodedig.

9. Cynorthwyo i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd i hyrwyddo negeseuon ailgylchu a chynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau ailgylchu drwy ddarparu arweiniad, cymorth a chyngor mewn modd gwybodus a chwrtais.

10. Pan fydd angen, helpu criwiau eraill i ddarparu a chwblhau'r rowndiau casglu gwastraff a deunydd ailgylchu.

11. Ymgymryd â'r holl ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â dyletswyddau'r swydd hon, yn ôl cyfarwyddyd y goruchwylydd amgylcheddol.

Cyffredinol

1.Cyflawni'r holl agweddau ar y gwaith yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Is-adran/Gwasanaeth gan gynnwys egwyddorion Rheoli Risg, Systemau Gweithio Diogel a'r Côd Ymarfer ar gyfer Sbwriel ac Ailgylchu.

2.Meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth berthnasol ddiweddaraf trwy gydymffurfio ag unrhyw ofynion am hyfforddiant perthnasol, i sicrhau bod gwasanaeth diogel, effeithlon ac effeithiol yn cael ei ddarparu bob amser.

3.Gweithio gyda Rheolwyr, Goruchwylwyr, cydweithwyr ac aelodau'r criw i ddatblygu perthynas waith er mwyn meithrin a gweithredu mesurau gwelliant parhaus a sicrhau bod safonau ymddygiad y Cyngor yn cael eu mabwysiadu, er mwyn cyfrannu at gyflwyno gwasanaeth sbwriel/ailgylchu o ansawdd uchel ac sy'n parhau i wella.

4.Cynnal gwerthoedd craidd yr awdurdod a chynnal egwyddorion gofal cwsmer wrth ymateb i unrhyw ymholiadau gan y cyhoedd mewn ffordd gwrtais, er mwyn cyfrannu at gyflwyno gwasanaeth sy'n rhoi'r cwsmer yn y canol.

5.Gwisgo'r dillad a'r cyfarpar amddiffynnol personol a ddyrannwyd ar bob adeg pan fo'n ofynnol, i gynnal diogelwch personol a diogelwch y criw. Sicrhau bod ceisiadau am gyfarpar newydd yn cael eu cyflwyno i'r Gyrrwr yn unol â phrotocol ac amserlenni'r gwasanaeth.

Yn gyfrifol am staff/offer
Dyfais Symudol a Chymorth Bancsmon
Yn atebol i
Gyrrwr Cerbyd Sbwriel/Ailgylchu

Meini Prawf Hanfodol

Cymwysterau, Hyfforddiant Galwedigaethol ac Aelodaethau Proffesiynol

Parodrwydd i gydymffurfio â gofynion hyfforddi parhaus sy'n gysylltiedig â'r swydd, gwybodaeth newydd a chyfarwyddiadau

Sgiliau sy'n Ymwneud â'r Swydd a Galluoedd

Y gallu i ddeall, dehongli a dilyn cyfarwyddiadau llafar ac ysgrifenedig

Sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i gynnal perthynas waith dda

Y gallu i nodi diffygion ar gerbyd a rhoi gwybod amdanynt

Y gallu i ddefnyddio ymdrech gorfforol am gyfnodau hir o weithio

Gwybodaeth

Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch berthnasol

Profiad

Profiad o weithredu mecanweithiau pŵer / gweithredu amrywiol offer a pheiriannau

Rhinweddau Personol

Ymagwedd hyblyg ac yn gallu dangos ymrwymiad i gyrraedd safonau uchel wrth gyflwyno gwasanaethau

Parodrwydd i weithio mewn tywydd gwael

Gallu gweithio fel rhan o dîm a pharodrwydd i wneud hynny

Parodrwydd i gydymffurfio â gofynion y gwasanaeth mewn perthynas â dillad a chyfarpar amddiffynnol personol

Meini prawf dymunol

Trwydded Cerbyd Nwyddau Mawr Categori C

Arferion sbwriel/ailgylchu a gweithredu mecanweithiau pŵer

Gwybodaeth ddaearyddol am Sir Gaerfyrddin

Ymwybyddiaeth o brotocol Gofal Cwsmer yr Awdurdod

Sgiliau Iaith a Chyfathrebu

Cliciwch ar y ddolen Beth yw lefel eich gallu?

Cymraeg	**Sgiliau Siarad Lefel 1**	**Sgiliau Ysgrifennu Lefel 1**
Saesneg	**Sgiliau Siarad Lefel 3**	**Sgiliau Ysgrifennu Lefel 2**
Arall (nodwch)		

GWIRIADAU'R GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD
Gall gwiriadau DBS fod yn ofynnol ar gyfer rhai swyddi sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed. Yn ofynnol ar gyfer y swydd hon: **Adran A – y math o ddatgeliad** Nid oes angen gwiriad DBS **Adran B – y math o weithlu** Ddim yn berthnasol

Y RHESWM
-

UNRHYW WYBODAETH ARALL
Fel y bo'r angen er mwyn bodloni gofynion y gwasanaeth, bydd yn ofynnol i ddeiliaid swydd cymwys, sy'n meddu ar drwydded addas, yrru'r cerbyd casglu sbwriel dynodedig ar sail ad hoc/camu i fyny ar y radd gyflog briodol, gan gyflawni'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau llawn yn unol â'r Proffil Swydd perthnasol ar gyfer Gyrrwr Cerbyd Sbwriel/Ailgylchu. Bydd y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau yn cynnwys archwilio'r cerbyd a chofnodi/rhoi gwybod am yr holl ddiffygion a sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddf traffig ffyrdd bob amser, ynghyd â chludo a goruchwylio'r criw, gan sicrhau'r berthynas orau bosibl rhwng y gwasanaeth a'r cyhoedd.

Main Purpose of Job

To work as part of an operational team within the refuse/recycling collection service responsible for collecting refuse and recycling from properties on designated rounds or in areas to meet the needs of the residents and businesses of Carmarthenshire.

Key responsibilities

PRINCIPAL ACCOUNTABILITIES:
Operational Duties:

1.Collect recycling or refuse from the kerbside or other agreed collection point and load into vehicle in accordance with operational plans, procedures and codes of practice including the lifting/ manoeuvring/sorting and returning of a full range of refuse and recycling containers ensuring that refuse and recycling items are collected at all times and missed collections are avoided by the end of the scheduled day.

2.Operate any fitted power mechanism including automated loading/compaction equipment in accordance with service procedures and vehicle requirements and to assist the driver in operational activities on the round and at tipping locations to reduce and control the potential risks to Health & Safety.

3.Be responsible for supporting the driver to manoeuvre the vehicle safely around the streets and carry out reversing assistant, traffic control and signalling (banks person) duties in accordance with safe working procedures and utilising reversing aides to minimise the risk of personal injury to other members of the crew and to members of the public.

4.Undertake a visual inspection of sacks and containers to ensure that prohibited/contaminated waste is not collected and that recyclable waste is deposited in the appropriate vehicle compartment to avoid cross contamination. Identify and report to the Refuse/Recycling Driver any non-compliance and where necessary apply approved notices to the bags or container.

5.Ensure that any debris or spilt refuse from damaged sacks is cleared up immediately, and where heavy littering has occurred, report to the Refuse/Recycling Driver.

6.Continually liaise with the Refuse/Recycling Driver in relation to the round's daily operational activities in order to report any problems (parked vehicles/communal points access/call backs/missed collections/spillages/litter problem areas/landfill etc) and use of initiative to deal with operational issues as they arise so that they may be speedily resolved.

7.Assist the driver to comply with disposal site rules for unloading and weighing when tipping off at specified locations (transfer stations, landfill sites or recycling facilities).

8. Use own initiative to solve any operational problems, including unique collection requirements, contamination or issues relevant to the performance and safety of the round ensure the service is delivered to the highest standard identifying, recording and reporting decision and activity to the environmental supervisor using prescribed procedure.

9. To assist in direct engagement with the public to promote recycling messages and improve participation in the recycling schemes by proving guidance, support and advice in a knowledgeable and polite manner.

10. When required support other crews in the delivery and completion of the waste and recycling collection rounds.

11. Undertake all other duties commensurate with the duties of this post as directed by the environmental supervisor

General

1.Undertake all aspects of the work in accordance with the Divisional/Services policies and procedures defined including Risk Management principles, Safe Systems of Work and the Code of Practice for Refuse & Recycling.

2.Keep up to date with relevant skills and knowledge by complying with any relevant training requirements to ensure that a safe efficient and effective service is provided at all times.

3.Engage with Managers, Supervisors, colleagues and crew members to develop working relationships in order to cultivate and implement continual improvement measures and ensure the Council's behavioural standards are adopted in order to contribute to the delivery of a high quality and improving refuse/recycling service.

4.Uphold the authority's core values and maintain the principles of customer care in responding to any queries from the public in a polite manner to contribute to the delivery of a customer focussed service.

5.Wear the allocated personal protective clothing and equipment at all required times to maintain personal safety and that of the crew. Ensure that requests for new equipment are submitted to the Driver in accordance with service protocol and timescales.

Responsible for staff/equipment
Banksman Aid Handset and Mobile Device
Reporting to
Refuse/Recycling Driver

Essential Criteria

Qualifications, Vocational training and Professional Memberships

Willingness to comply with ongoing job-related training requirements, new information and instructions

Job Related Skills and Competencies

Ability to understand, interpret and follow verbal and written instructions

Good communications skills and the ability to maintain good working relationships

Ability to identify and report on vehicle defects

The ability to use physical effort for sustained periods of working

Knowledge

Relevant Health & Safety legislation

Experience

Experience of power mechanism operation/ operating various plant and machinery

Personal qualities

A flexible approach and the ability to demonstrate commitment towards achieving high standards in service delivery.

Willingness to work in adverse weather conditions

Willingness and ability to work as part of a team

Willingness to comply with service requirements in relation to personal protective clothing and equipment

Desirable Criteria

Large Goods Vehicle Licence Category C.

Refuse/recycling practices and operation of power mechanisms

Geographical knowledge of Carmarthenshire

Awareness of Authority's Customer Care protocol

Language and Communication Skills

Click on the link What level are you?

Welsh	**Spoken Level 1**	**Written level 1**
English	**Spoken Level 3**	**Written level 2**
Other (please State)		

DISCLOSURE AND BARRING SERVICES (DBS) CHECKS

DBS Checks may be required for certain posts which work with children and vulnerable adults. This post requires:

Section A – type of disclosure **No DBS check required**

Section B – workforce type **Not Applicable**

JUSTIFICATION

-

ANY OTHER INFORMATION

As necessary to satisfy service demands, suitably licensed and competent post holders will be required to drive the designated refuse collection vehicle on an ad hoc acting up basis at the appropriate pay grade undertaking the full duties and responsibilities as defined in the relevant Refuse/Recycling Driver Job Profile.

Duties and responsibilities will include vehicle inspection and recording/reporting all defects and ensuring that the road traffic act is adhered to at all time and to transport and supervise the crew, ensuring the best operational relationships between the service and members of the public.